Y Comisiwn Etholiadol

Etholiad Senedd Cymru

Canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid

Rhan 2a o 6 – Sefyll yr etholiad etholaethol

Chwefror 2021

Mae'r ddogfen hon yn gymwys i'r etholiad etholaethol ar gyfer Senedd Cymru yn unig. Nid yw'n gymwys i'r etholiad rhanbarthol ar gyfer Senedd Cymru. Gellir gweld ein canllawiau a'n hadnoddau mewn perthynas ag etholiadau rhanbarthol Senedd Cymru ac etholiadau eraill yn y DU ar ein gwefan trwy: https://www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/ymgeisydd-neu-asiant/ymgeiswyr-ac-asiantau-mewn-etholiadau-cynulliad-cenedlaethol-cymru

Cynnwys

Gwybodaeth hanfodol 2
Cwblhau eich papurau enwebu 3
Y ffurflen enwebu 4
Cydsynio i'r enwebu 6
Y dystysgrif awdurdodi – ymgeiswyr plaid yn unig 7
Cyflwyno eich papurau enwebu 9
Pwy all gyflwyno'r papurau enwebu? 10
Sut y dylai papurau enwebu gael eu cyflwyno? 10
Pryd y dylai papurau enwebu gael eu cyflwyno? 11
Yr ernes 11
Archwilio papurau enwebu ymgeiswyr eraill 12
Gwrthwynebu enwebiadau 13
Amserlen ar gyfer gwrthwynebiadau 13
Penderfyniadau ynglŷn â gwrthwynebiadau 14
Tynnu'n ôl 14
Beth sy'n digwydd ar ôl i enwebiadau gau? 15
Penodi eich asiant etholiadol ac asiantiaid eraill 16
Pwy all fod yn asiant etholiadol? 17
Penodi asiant etholiadol 17
Diddymu penodiad asiant etholiadol 18
Is-asiantiaid 19
Penodi asiantiaid pleidleisiau post, pleidleisio a chyfrif 20
Marwolaeth ymgeisydd 21
Gwybodaeth atodol 22
Enw(au) cyffredin 22
Marwolaeth ymgeisydd 23
Marwolaeth ymgeisydd annibynnol 23
Marwolaeth ymgeisydd plaid 24

Gwybodaeth hanfodol

Mae'r adran hon o'r ddogfen yn cynnwys ein canllawiau ar sefyll fel ymgeisydd etholaeth yn etholiadau Senedd Cymru.

Darperir gwybodaeth atodol yng nghefn y ddogfen hon, sydd ond yn berthnasol o bosibl i rai ymgeiswyr. Gallwch hefyd weld y canllawiau atodol hyn drwy glicio ar y dolenni yn y ddogfen hon neu drwy glicio ar bennawd y bennod ar y dudalen gynnwys.

Yn y ddogfen hon, byddwn yn defnyddio ‘chi’ i gyfeirio at bob ymgeisydd sy'n sefyll yn etholiad etholaethol y Senedd. Os bydd ein canllawiau ond yn gymwys i fath penodol o ymgeisydd (er enghraifft, ymgeisydd plaid), caiff hyn ei nodi'n benodol.

Rydym yn defnyddio ‘rhaid’ wrth gyfeirio at ofyniad penodol. Rydym yn defnyddio ‘dylai’ ar gyfer eitemau sydd yn arfer da sylfaenol yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol na rheoleiddiol.Mae’r dyddiadau cau a grybwyllir yn y ddogfen hon yn rhai generig, ac rydym wedi cyhoeddi amserlen etholiad generig ar ein gwefan.

O ran etholiadau trefnedig, byddwn yn cyhoeddi amserlen etholiad sy’n cynnwys y dyddiadau cau penodol ar gyfer y pleidleisiau hynny, y gallwch ei llwytho o’n gwefan.

Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau.

Gweler ein Dogfen drosolwg am fanylion cyswllt.

Mae deddfwriaeth diogelu data yn berthnasol i brosesu data personol yn ei gyfanrwydd.

Cysylltwch â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am ragor o wybodaeth ynghylch sut mae’r ddeddfwriaeth diogelu data gyfredol yn effeithio arnoch chi.

Cwblhau eich papurau enwebu

1.1 I gael eich enwebu'n ymgeisydd etholaethol yn etholiadau Senedd Cymru, bydd angen i chi gyflwyno set o bapurau enwebu sydd wedi'u cwblhau i'r man a nodwyd gan y Swyddog Canlyniadau Etholaethol perthnasol, ynghyd ag ernes o £500, erbyn 4pm ar y 19eg diwrnod gwaith cyn yr etholiad. Pennir y dyddiad cau hwn yn ôl y gyfraith ac ni ellir ei newid am unrhyw reswm.

1.2 Nodir y dyddiad pan allwch ddechrau cyflwyno papurau enwebu, yn ogystal â'r amseroedd a'r man cyflwyno, yn yr hysbysiad etholiad swyddogol a gyhoeddir gan y Swyddog Canlyniadau Etholaethol.

1.3 Rhaid i chi gyflwyno tri phapur enwebu er mwyn i'ch enwebiad fod yn ddilys:

- y ffurflen enwebu
- ffurflen cyfeiriad cartref
- eich cydsyniad i'r enwebu

Y diwrnod olaf ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad etholiad yw 25 diwrnod gwaith cyn yr etholiad.

1.4 Er mwyn sefyll ar ran plaid wleidyddol gofrestredig, rhaid bod y blaid wedi'i chofrestru ar gofrestr o bleidiau gwleidyddol y Comisiwn yn http://search.electoralcommission.org.uk/cymraeg a bod wedi'i rhestru'n blaid y caniateir iddi gyflwyno ymgeiswyr yng Nghymru, a bydd hefyd angen i chi gyflwyno tystysgrif awdurdodi. Mae'r dystysgrif yn eich awdurdodi i ddefnyddio enw'r blaid neu ddisgrifiad plaid gofrestredig, yn ogystal ag un o arwyddluniau cofrestredig y blaid, ar y papur pleidleisio. I gael rhagor o fanylion am y dystysgrif awdurdodi, gweler paragraff **1.14**.

1.5 Gallwch gael papurau enwebu gan y Swyddog Canlyniadau Etholaethol. Rhoddir manylion cyswllt ar ein gwefan. Fel arall, mae'r Comisiwn wedi llunio set o bapurau enwebu y gallwch ei defnyddio.

1.6 Os na fyddwch chi, eich asiant neu rywun rydych yn ymddiried ynddo yn gallu cwblhau'r ffurflen enwebu, gall y

Swyddog Canlyniadau Etholaethol eich helpu trwy baratoi'r ffurflen i chi ei llofnodi. Dylech holi'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol cyn gynted â phosibl i weld pa gymorth a all fod ar gael.

1.7 Efallai y gall y Swyddog Canlyniadau Etholaethol hefyd gynnig bwrw golwg anffurfiol dros eich papurau enwebu a gwblhawyd cyn i chi eu cyflwyno. Dylech gael ar wybod gan eich CRO p'un a ydynt yn bwriadu cynnig gwiriadau anffurfiol.

1.8 Noder bod yn rhaid i unrhyw wybodaeth rydych yn ei rhoi ar eich papurau enwebu fod yn gywir hyd eithaf eich gwybodaeth. Mae'n drosedd gwneud datganiad anwir ar eich papurau enwebu. Gallai rhoi datganiad anwir annilysu eich etholiad, a gallech hefyd wynebu dirwy anghyfyngedig a/neu ddedfryd o garchar i chi.

Gall y Swyddog Canlyniadau benderfynu bod eich papur enwebu'n annilys os nad yw manylion eich enwebiad fel sy'n ofynnol yn gyfreithiol.
Gall y Swyddog Canlyniadau hefyd wrthod eich enwebiad os ydynt yn penderfynu ei fod yn amlwg yn ffug, er enghraifft, os oes enw sy'n amlwg ddychmygol wedi ei roi.

Y ffurflen enwebu

1.9 Rhaid i'r ffurflen enwebu gael ei chwblhau yn Gymraeg neu Saesneg. Rhaid i'r ffurflen gynnwys:

- **Eich enw llawn**. Nodwch eich cyfenw ac enwau eraill yn llawn. Gallai defnyddio blaenlythrennau'n unig arwain at wrthod eich papur enwebu. Hefyd, peidiwch â defnyddio rhagddodiaid fel Mr, Mrs, Dr neu Cyngh. fel rhan o'ch enw. Mae'r un peth yn wir am ôl-ddodiaid. Fodd bynnag, os oes gennych deitl, gallwch ddefnyddio hwn fel eich enw llawn. Er enghraifft, os mai Joseph Smith yw eich enw gwirioneddol, ond mai eich teitl etifeddol yw Joseph Avon, gallwch ddefnyddio'r enw Joseph Avon fel eich enw llawn.

- **Llofnod un llofnodwr**. Gallwch lofnodi eich enwebiad eich hun neu ofyn i rywun arall ei lofnodi. Os bydd rhywun arall yn llofnodi'r ffurflen, bydd angen i'r unigolyn hwnnw hefyd roi ei enw llawn a'i gyfeiriad. Nid oes angen i'r cyfeiriad hwn fod yn yr etholaeth.

Dylid ysgrifennu eich enw a'ch disgrifiad (os ydych yn dewis defnyddio un) ar y ffurflen enwebu **cyn** i chi ofyn i'ch tanysgrifwyr lofnodi'r ffurflen.

I ddarganfod sut mae cael y gofrestr etholiadol, gweler:
Rhan 4: Yr Ymgyrch

1.10 Mae'r canlynol yn ddewisol:

- **Enw cyffredin**: Os ydych yn defnyddio enw sy'n wahanol i unrhyw enw(au) cyntaf neu gyfenw sydd gennych ac yr hoffech iddo ymddangos ar y papur pleidleisio, bydd angen i chi nodi hyn ar y ffurflen enwebu. Rhoddir rhagor o fanylion ym mharagraff **1.86**.

- **Disgrifiad**: Gallwch ofyn i gael naill ai enw'r blaid fel y mae wedi ei gofrestru gyda'r Comisiwn neu un o ddisgrifiadau cofrestredig y blaid i ymddangos ar y papur pleidleisio o dan eich enw.

  I gael gwybodaeth ynchylch sut i gofrestru plaid wleidyddol ewch i wefan y Comisiwn

  Ymgeiswyr annibynnol: Os hoffech i'r gair 'Annibynnol' a/neu 'Independent' ymddangos ar y papur pleidleisio o dan eich enw, bydd angen i chi nodi hyn ar y ffurflen enwebu. Ni chaniateir unrhyw ddisgrifiadau eraill ar gyfer ymgeiswyr nad ydynt yn sefyll ar ran plaid wleidyddol gofrestredig. Fel arall, gallwch ddewis peidio â chael disgrifiad o gwbl drwy adael y rhan hon o'r ffurflen yn wag.

  Ymgeiswyr plaid: Gallwch ofyn am i naill ai enw'r blaid fel y'i cofrestrir â'r Comisiwn neu un o ddisgrifiadau cofrestredig y blaid ymddangos ar y papur pleidleisio o dan eich enw. Cewch ddefnyddio naill ai'r fersiwn Gymraeg, y fersiwn Saesneg neu'r ddwy fersiwn o enw'r blaid neu'r disgrifiad, cyhyd â'u bod wedi'u cofrestru â ni.

  Os hoffech ddefnyddio enw plaid neu ddisgrifiad, rhaid i chi gyflwyno tystysgrif, gyda'ch papurau enwebu eraill, yn dangos eich bod wedi'ch awdurdodi i ddefnyddio enw'r blaid neu'r disgrifiad (sef tystysgrif awdurdodi). Rhaid i'r dystysgrif gael ei chyflwyno gan Swyddog Enwebu'r blaid gofrestredig (neu rywun sydd wedi'i awdurdodi i weithredu ar ei ran) a dod i law'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol erbyn y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau, sef 4pm ar y 19eg diwrnod gwaith cyn yr etholiad. Rhoddir rhagor o wybodaeth am y dystysgrif ym mharagraff **1.14**.

  Gellir gweld enwau pleidiau cofrestredig a disgrifiadau cofrestredig ar ein cofrestr ar-lein. http://search.electoralcommission.org.uk/Cymraeg

  Os hoffech ddefnyddio enw cofrestredig plaid nad yw'n cynnwys 'Welsh' neu 'Cymru', yna gellir ychwanegu 'Welsh' neu 'Cymru' at enw cofrestredig y blaid yn y blwch disgrifiad neu ar y papur pleidleisio.

Os ydych yn sefyll ar ran dwy blaid neu fwy, cewch ddefnyddio disgrifiad ar y cyd fel y'i cofrestrir â'r Comisiwn. Os felly, bydd angen i chi gael eich awdurdodi gan y Swyddog Enwebu ar gyfer pob un o'r pleidiau cofrestredig (neu bobl a benodwyd i weithredu ar ei ran).

Dylech fod yn arbennig o ofalus wrth gwblhau'r maes disgrifiadau ar y ffurflen enwebu. Rhaid i enw'r blaid/disgrifiad a ddefnyddir ar y papur enwebu gyfateb yn union (heb gynnwys y rhagddodiad 'Welsh' neu'r ôl-ddodiad 'Cymru') i enw'r blaid/disgrifiad ar gofrestr ar-lein o bleidiau gwleidyddol y Comisiwn: http://search.electoralcommission.org.uk/Cymraeg. Os nad ydyw, gwrthodir yr enwebiad cyfan.

Nid oes rhaid i chi ddefnyddio disgrifiad. Gallwch ddewis peidio â chael disgrifiad o gwbl, drwy adael maes disgrifiad y ffurflen yn wag.

Cydsynio i'r enwebu

1.11 Rhaid i chi hefyd gydsynio'n ffurfiol i'ch enwebiad yn ysgrifenedig. Rhagnodir cynnwys y ffurflen cydsynio i'r enwebu yn ôl y gyfraith. Ar y ffurflen, gofynnir i chi nodi eich bod yn gymwys ac nad ydych wedi'ch anghymhwyso rhag sefyll. Rhaid i chi hefyd nodi:

Rhoddir gwybodaeth am amodau cymhwyso ac anghymhwyso yn Rhan 1: A allwch sefyll etholiad?

- eich dyddiad geni
- cyfeiriad yn yr etholaeth Senedd, mewn etholaeth gyfagos, neu mewn sir neu fwrdeistref sirol sydd yn yr etholaeth yn rhannol neu'n ffinio â'r etholaeth rydych yn sefyll ynddi (tybir mai hwn yw cyfeiriad eich swyddfa os mai chi fydd eich asiant etholiadol eich hun am nad ydych wedi penodi neb arall. Rhoddir rhagor o wybodaeth am asiantiaid etholiadol ym mharagraff **1.55**)
- nad ydych yn ymgeisydd yn yr un etholiad yn unrhyw etholaeth arall

1.12 Ni chewch lofnodi'r ffurflen gydsynio yn gynharach nag un mis cyn y dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno eich papurau enwebu.

1.13 Gellir cyflwyno'r cydsyniad i'r enwebu i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn bersonol, neu ei gyflwyno'n electronig i gyfeiriad e-bost at y diben hwnnw.

1.14 Gweler paragraff **1.22 ymlaen** am arweiniad ar sut i gyflwyno papurau enwebu.

Y dystysgrif awdurdodi – ymgeiswyr plaid yn unig

1.15 Mae pleidiau gwleidyddol yn awdurdodi ymgeiswyr i sefyll ar eu rhan drwy roi tystysgrif awdurdodi. Rhaid iddi nodi y gall yr ymgeisydd a enwir sefyll ar eu rhan a chaniatáu iddo ddefnyddio un o'r canlynol:

- union enw'r blaid fel y'i cofrestrwyd â'r Comisiwn (naill ai'r fersiwn Gymraeg, y fersiwn Saesneg neu'r ddwy)
- un o ddisgrifiadau'r blaid fel y'u cofrestrwyd â'r Comisiwn (naill ai'r fersiwn Gymraeg, y fersiwn Saesneg neu'r ddwy)
- eich dewis o ran naill ai enw plaid cofrestredig neu un o'r enwau cofrestredig

Ceir enwau pleidiau cofrestredig a disgrifiadau cofrestredig ar gofrestr ar-lein y Comisiwn: http://search.electoralcommission.org.uk/Cymraeg

Dylai'r Swyddog Enwebu (neu rywun sydd wedi'i benodi'n ysgrifenedig i weithredu ar ei ran) fod yn hynod ofalus wrth gwblhau'r dystysgrif awdurdodi. Os yw'r dystysgrif yn awdurdodi enw plaid/disgrifiad plaid yn benodol ac nad yw'n cyfateb i enw'r blaid/disgrifiad ar y papur enwebu (heb gynnwys y rhagddodiad 'Welsh' neu'r ôl-ddodiad 'Cymru') bydd yr enwebiad cyfan yn annilys.

1.16 Rhaid i'r dystysgrif awdurdodi gael ei llofnodi gan Swyddog Enwebu cofrestredig y blaid wleidyddol, neu gan rywun sydd wedi'i benodi'n ysgrifenedig gan y Swyddog Enwebu i weithredu ar ei ran. Os yw'r Swyddog Enwebu wedi penodi rhywun arall i gyflawni'r swyddogaeth hon ar ei ran, rhaid cyflwyno copi o'r penodiad ysgrifenedig i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol.

1.17 Os ydych yn sefyll ar ran dwy blaid ar y cyd, bydd angen i chi gael tystysgrif awdurdodi gan Swyddog Enwebu'r naill blaid gofrestredig a'r llall (neu bobl a awdurdodwyd i weithredu ar ei

ran). Rhestrir disgrifiadau ar y cyd ar gofrestr pleidiau gwleidyddol y Comisiwn ar dudalen gofrestru'r pleidiau perthnasol.

Cais i ddefnyddio arwyddlun ar y papur pleidleisio

1.18 Os ydych wedi eich awdudodi gan blaid wleidyddol i ddefnyddio enw'r blaid neu ddisgrifiad cofrestredig, gallwch hefyd ofyn bod un i arwyddluniau swyddogol y blaid yn ymddangos wrth ochr eich enw ar y papur pleidleisio.

1.19 Os felly, ar y dystysgrif awdurdodi, gall y Swyddog Enwebu (neu rywun a benodir yn ysgrifenedig i weithredu ar ei ran) hefyd wneud cais am i un o arwyddluniau swyddogol y blaid gael ei argraffu wrth ochr eich enw ar y papur pleidleisio.

Gallwch weld neu lawrlwytho arwyddluniau o'n cofrestr ar-lein o bleidiau gwleidyddol: http://search.electoralcommission.org.uk/Cymraeg/

1.20 Rhaid i'r cais ddod i law y Swyddog Canlyniadau Etholaethol erbyn 4pm ar y 19eg diwrnod gwaith cyn yr etholiad.

1.21 Os oes gan y blaid fwy nag un arwyddlun, dylai'r cais nodi disgrifiad o'r arwyddlun i'w ddefnyddio, fel y'i rhestrir ar gofrestr ar-lein o bleidiau gwleidyddol y Comisiwn. Ni ellir newid arwyddluniau cofrestredig mewn unrhyw ffordd.

1.22 Caiff ymgeiswyr sy'n sefyll ar ran dwy blaid gofrestredig neu fwy ac sy'n defnyddio disgrifiad ar y cyd ddefnyddio arwyddlun sydd wedi'i gofrestru gan un o'r pleidiau gwleidyddol. Dylai'r cais nodi enw'r blaid wleidyddol sydd wedi cofrestru'r arwyddlun rydych am ei ddefnyddio, a disgrifiad yr arwyddlun i'w ddefnyddio, fel y maent wedi eu rhestru ar gofrestr ar-lein pleidiau gwleidyddol y Comisiwn.

Ffurflen cyfeiriad cartref

1.23 Mae gofyn i chi gwblhau ffurflen cyfeiriad cartref, y mae'n rhaid ei hanfon â llaw, ynghyd â'r ffurflen enwebu, erbyn y

dyddiad cau ar gyfer anfon papurau enwebu, sef 4pm ar y pedwerydd diwrnod gwaith ar bymtheg cyn y bleidlais.

1.24 Rhagnodir y ffurflen hon mewn deddfwriaeth.

1.25 Mae'n rhaid i'r ffurflen cyfeiriad cartref nodi eich cyfeiriad cartref yn llawn.

1.26 Eich cyfeiriad cartref:

- Rhaid iddo beidio â chynnwys talfyriadau
- Rhaid iddo fod eich cyfeiriad cartref cyfredol
- Rhaid iddo beidio â bod yn gyfeiriad busnes (oni bai eich bod yn cynnal busnes o'ch cartref).

1.27 Nid oes rhaid i'ch cyfeiriad cartref fod yn yr etholaeth Senedd lle rydych yn bwriadu sefyll.

1.28 Gallwch ddewis i'ch cyfeiriad cartref beidio ag ymddangos ar y datganiad personau a enwebwyd neu'r papur pleidleisio.

1.29 Os felly, rhaid i'r ffurflen cyfeiriad cartref gynnwys, yn ogystal â'ch enw llawn a'ch cyfeiriad cartref:

- Datganiad, a lofnodwyd gan yr ymgeisydd, sy'n datgan eu bod yn gofyn na chaiff eu cyfeiriad cartref ei gyhoeddi
- etholaeth Senedd Cymru y mae eich cyfeiriad cartref, neu os yw eich cyfeiriad y tu allan i Gymru, ym mha etholaeth Seneddol (Senedd y DU); neu os yw eich cyfeiriad tu allan i'r DU, ychwanegwch enw'r wlad.
- Os yw eich cyfeiriad cartref y tu allan i'r DU, enw'r wlad y mae eich cyfeiriad cartref ynddi

Cyflwyno eich papurau enwebu

1.30 Rhaid i bob papur enwebu, gan gynnwys y ffurflen cyfeiriad cartref, cydsyniad i'r enwebu a'r dystysgrif awdurdodi a'r ffurflen gofyn caniatâd arwyddlun, lle y bo'n berthnasol, gael eu cyflwyno i'r man a nodwyd ar yr hysbysiad etholiad erbyn 4pm ar y 19eg diwrnod gwaith cyn yr etholiad. Chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod eich papurau enwebu yn cael eu cyflwyno yn y ffordd gywir ac ar amser.

Pwy all gyflwyno'r papurau enwebu?

1.31 Dim ond nifer gyfyngedig o bobl a gaiff gyflwyno eich ffurflen enwebu. Y rhain yw:

- chi
- rhywun a awdurdodwyd ar eich rhan (a bwrw eich bod wedi rhoi enw a chyfeiriad y person i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol - yn ysgrifenedig neu yn electronig - cyn neu wrth i'r ffurflen gael ei chyflwyno
- eich asiant etholiadol (ar yr amod eich bod wedi rhoi hysbysiad penodi i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol neu fod yr hysbysiad yn cael ei gyflwyno gyda'r ffurflenni)
- os ydych yn sefyll ar ran plaid, Swyddog Enwebu'r blaid (neu rywun a benodwyd yn ysgrifenedig i weithredu ar ei ran)

1.32 Ni chyfyngir ar bwy all gyflwyno'ch cydsyniad i'r enwebu neu'r dystysgrif awdurdodi, ond dylech sicrhau eich bod chi, eich asiant neu rywun rydych yn ymddiried ynddo yn gwneud hyn, fel y gallwch sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol ar amser.

Sut y dylai papurau enwebu gael eu cyflwyno?

1.33 Rhaid i'r ffurflen enwebu a'r ffurflen cyfeiriad cartref gael eu cyflwyno â llaw, ac ni ellir eu cyflwyno trwy'r post, ffacs, e-bost, neu foddion electronig eraill.

1.34 Gellir cyflwyno'r cydsyniad i'r enwebu i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn bersonol, neu ei gyflwyno'n electronig i gyfeiriad e-bost at y diben hwnnw. Lle bo ymgeisydd dramor, ac mae'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn ystyried ei bod yn anymarferol i'r cydsyniad gael ei anfon yn ysgrifenedig, gellir ei gyflwyno'n electronig.

1.35 Gellir cyflwyno'r dystysgrif awdurdodi drwy'r post, ond ni ellir ei chyflwyno drwy ffacs, e-bost nac unrhyw gyfrwng electronig arall.

1.36 Rhaid cyflwyno **fersiwn wreiddiol** pob papur a gwblhawyd. Byddai tystysgrif awdurdodi a anfonwyd fel atodiad

e-bost i'w hargraffu, er enghraifft, yn ei gwneud yn ‘gopi o ddogfen’ ac nid y ddogfen wreiddiol.

Pryd y dylai papurau enwebu gael eu cyflwyno?

1.37 Dylech gyflwyno eich papurau enwebu cyn gynted â phosibl er mwyn rhoi cyfle i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol fwrw golwg anffurfiol drostynt a rhoi digon o amser i chi gyflwyno papurau enwebu newydd os bydd eich set gyntaf yn cynnwys unrhyw wallau.

1.38 Bydd y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn cadarnhau'r union fanylion o ran pryd a ble y gellir cyflwyno papurau enwebu ar yr hysbysiad etholiad swyddogol. Cyhoeddir yr hysbysiad etholiad heb fod yn hwyrach na 25 diwrnod gwaith cyn yr etholiad. Yn y rhan fwyaf o achosion, cyhoeddir yr hysbysiad etholiad ar wefan awdurdod lleol y Swyddog Canlyniadau Etholaethol.

1.39 Gallwch gyflwyno papurau enwebu rhwng 9am a 5pm ar unrhyw ddiwrnod ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad etholiad tan 4pm ar y 19eg diwrnod gwaith cyn yr etholiad.

1.40 Dylech gysylltu â'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol cyn gynted â phosibl er mwyn gweld pa drefniadau sydd ar waith ar gyfer cyflwyno papurau enwebu.

1.41 Os byddwch, ar ôl cyflwyno eich papurau enwebu, yn newid eich meddwl am sefyll etholiad, cewch dynnu'n ôl, ar yr amod eich bod yn gwneud hynny erbyn 4pm ar y 19eg diwrnod gwaith cyn yr etholiad. I gael rhagor o fanylion am dynnu'n ôl, gweler paragraff **1.50.**

Yr ernes

1.42 Er mwyn i'ch enwebiad fod yn ddilys, rhaid rhoi'r swm o £500 yn ernes i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol erbyn y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau, sef 4pm ar y 19eg diwrnod gwaith cyn yr etholiad. Gellir talu'r ernes gan ddefnyddio:

- arian parod (punnoedd Sterling yn unig)
- drafft bancwr yn y DU

1.43 Gall y Swyddog Canlyniadau Etholaethol hefyd dderbyn ernes ar ffurf siec cymdeithas adeiladu, cerdyn debyd neu gredyd neu drosglwyddiad electronig. Fodd bynnag, gall wrthod gwneud hynny. Os ydych yn ystyried talu'r ernes yn un o'r ffyrdd hyn, dylech holi'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol cyn gynted â phosibl i gadarnhau a yw'r dull o dalu'n dderbyniol.

1.44 Os bydd y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn caniatáu i'r ernes gael ei thalu drwy gerdyn debyd neu gredyd, gall y cwmni dan sylw godi ffi am y trafodyn. Os felly, bydd angen i chi dalu unrhyw ffioedd ychwanegol yn ogystal â'r ernes o £500.

1.45 Oni bai mai eich asiant yw'r sawl sy'n talu'r ernes, a'ch bod wedi hysbysu'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol am ei benodiad, bydd angen i'r sawl sy'n talu'r ernes roi ei enw a'i gyfeiriad i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol ar yr adeg honno.

1.46 Ad-delir yr ernes os cewch fwy na 5% o nifer y pleidleisiau dilys yn yr etholaeth. Bydd yr ymgeiswyr hynny a gaiff 5% neu lai o gyfanswm nifer y pleidleisiau dilys yn colli eu hernes.

Archwilio papurau enwebu ymgeiswyr eraill

1.47 Dim ond rhai pobl a gaiff fod yn bresennol ar adeg cyflwyno papurau enwebu ac a gaiff archwilio a gwrthwynebu dilysrwydd ffurflen enwebu etholaeth. Ar ôl i chi gyflwyno eich papurau enwebu a'ch ernes a'ch bod yn sefyll ar sail enwebiad dilys, caiff y canlynol archwilio a gwrthwynebu ffurflen enwebu etholaeth:

- chi
- eich asiant etholiadol

- os ydych yn sefyll ar ran plaid wleidyddol, Swyddog Enwebu'r blaid
- os mai chi yw eich asiant etholiadol, rhywun a enwebwyd gennych i fod yn bresennol ar eich rhan.

1.48 Ni chaiff unrhyw un arall archwilio papurau enwebu ar unrhyw adeg.

1.49 Caiff cynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol ac un unigolyn arall a ddewisir gan bob ymgeisydd a enwebwyd yn ddilys fod yn bresennol ar adeg cyflwyno papurau enwebu, ond ni chânt eu harchwilio na gwrthwynebu.

1.50 Ni chaiff unrhyw un arall, heblaw am y Swyddog Canlyniadau Etholaethol a'i staff, fod yn bresennol ar adeg cyflwyno papurau enwebu.

Gwrthwynebu enwebiadau

1.51 Gellir gwrthwynebu dilysrwydd unrhyw ffurflen enwebu ar y 19eg diwrnod gwaith cyn yr etholiad.

O dan un amgylchiad eithriadol, lle bo'r gwrthwynebiad ar sail y ffaith bod ymgeisydd wedi'i anghymhwyso am ei fod yn y carchar a chanddo ddedfryd o flwyddyn neu fwy, gellir gwrthwynebu ar y 19eg diwrnod gwaith cyn yr etholiad.

1.52 Bydd y cyfnod a ganiateir i wrthwynebu yn dibynnu ar pryd y cyflwynir y papurau enwebu.

Amserlen ar gyfer gwrthwynebiadau

Enwebiadau a gyflwynir hyd at, a chan gynnwys, 4pm ar ar y diwrnod cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno papurau enwebu

1.53 Rhaid i wrthwynebiadau i unrhyw ffurflen enwebu a gyflwynir hyd at, a chan gynnwys, 4pm ar y diwrnod cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno papurau enwebu gael eu gwneud **rhwng 9am a chanol dydd ar y diwrnod olaf ar gyfer cyflwyno papurau enwebu.**

Enwebiadau a gyflwynir ar ôl 4pm ar ar y diwrnod cyn y dyddiad cau ar gyfer cyfwyno papurau enwebu

1.54 Rhaid i wrthwynebiadau i unrhyw ffurflen enwebu a gyflwynir ar ôl 4pm ar y diwrnod cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno papurau enwebu gael eu gwneud **rhwng 9am a 5pm**

ar y diwrnod olaf ar gyfer cyflwyno papurau enwebu. Rhaid i unrhyw wrthwynebiadau gael eu gwneud ar yr union adeg, neu syth ar ôl cyflwyno'r enwebiadau.

Gwrthwynebu ar sail y ffaith bod ymgeisydd yn y carchar am flwyddyn neu fwy

1.55 Yn yr achos prin lle bo'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn ystyried y gall ymgeisydd fod wedi'i anghymhwyso am ei fod yn y carchar a chanddo ddedfryd o flwyddyn neu fwy, bydd yn cyhoeddi hysbysiad i wahodd gwrthwynebiadau ar y sail honno. Gellir gwneud unrhyw wrthwynebiad o'r fath rhwng **10am a 4pm ar y diwrnod cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno papurau enwebu**.

Penderfyniadau ynglŷn â gwrthwynebiadau

1.56 Bydd y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau a wneir, ond caiff benderfynu bod enwebiad yn annilys am y rhesymau canlynol yn unig:

- nid yw manylion yr ymgeisydd yn unol â'r gyfraith
- ni lofnodwyd y ffurflen fel sy'n ofynnol
- mae'r ymgeisydd wedi'i anghymhwyso am ei fod yn y carchar a chanddo ddedfryd o flwyddyn neu fwy
- mae'r ymgeisydd yn sefyll mewn mwy nag un etholaeth Senedd

1.57 Bydd penderfyniad y Swyddog Canlyniadau Etholaethol fod enwebiad yn ddilys yn derfynol ac ni ellir ei herio yn ystod yr etholiad. Dim ond drwy ddeiseb etholiadol y gellir herio'r penderfyniad ar ôl etholiad (gweler Rhan 6 - Ar ôl datgan canlyniad am ragor o wybodaeth am ddeisebau etholiadol).

Tynnu'n ôl

1.58 Cewch dynnu'n ôl fel ymgeisydd drwy lofnodi a chyflwyno hysbysiad tynnu enw yn ôl, y mae'n rhaid i rywun arall ei dystio. Rhaid i'ch tyst hefyd lofnodi'r hysbysiad. Nid oes unrhyw gyfyngiadau o ran pwy all gyflwyno'r hysbysiad, ond rhaid gwneud hynny'n bersonol. Gellir cael hysbysiad tynnu

Os etholir ymgeisydd mewn etholiad diwrthwynebiad, bydd yn rhaid iddo wneud datganiad o ran treuliau etholiad o hyd.

Gweler Rhan 3: Gwariant a rhoddion am fwy o fanylion.

enw yn ôl gan y Swyddog Canlyniadau Etholaethol neu gellir ei lawrlwytho o'n gwefan.

1.59 Rhaid i'r hysbysiad tynnu enw yn ôl gael ei gyflwyno i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn y man cyflwyno papurau enwebu erbyn y dyddiad cau ar gyfer tynnu'n ôl, sef 4pm ar y 19eg diwrnod gwaith cyn yr etholiad . Ar ôl y dyddiad cau ar gyfer tynnu'n ôl, nid yw'n bosibl tynnu'n ôl o'r etholiad, a bydd eich enw yn ymddangos ar y papur pleidleisio. Os bydd yr etholiad yn ddiwrthwynebiad, cewch eich ethol.

1.60 Os byddwch y tu allan i'r Deyrnas Unedig, gall rhywun arall lofnodi'r hysbysiad tynnu enw yn ôl ar eich rhan, ond rhaid ei gyflwyno ynghyd â datganiad ysgrifenedig sy'n nodi eich bod yn absennol o'r Deyrnas Unedig a datganiad ysgrifenedig a lofnodwyd gennych sy'n cadarnhau eich bod wedi awdurdodi'r unigolyn sy'n cyflwyno'r hysbysiad i dynnu eich enwebiad yn ôl.

1.61 Os byddwch yn tynnu'n ôl fel ymgeisydd, ad-delir eich ernes.

Beth sy'n digwydd ar ôl i enwebiadau gau?

1.62 Bydd y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn cyhoeddi datganiad am y sawl a enwebwyd, gan gynnwys hysbysiad etholiad ar gyfer yr etholaeth, erbyn 4pm ar y 18fed diwrnod gwaith cyn yr etholiad fan bellaf. Bydd y datganiad yn cynnwys:

- enwau llawn neu gyffredin pob ymgeisydd a enwebwyd yn ddilys
- enwau ymgeiswyr nad ydynt wedi'u henwebu mwyach, os o gwbl (h.y. ymgeiswyr annilys a'r rhai sydd wedi tynnu'n ôl), gan nodi'r rheswm pam nad ydynt yn sefyll mwyach
- cyfeiriad pob ymgeisydd, neu os ydynt wedi gwneud cais i'w cyfeiriad cartref beidio â chael ei gyhoeddi, enw'r etholaeth y mae eu cyfeiriad cartref ynddi (neu'r wlad y mae eu cyfeiriad cartref ynddi os yw eu cyfeiriad tu allan i'r DU)
- disgrifiad pob ymgeisydd (os o gwbl)

Archwilio ffurflenni cyfeiriad cartref

1.63 Yn ystod oriau swyddfa arferol, o gau'r enwebiadau hyd at y diwrnod cyn y bleidlais, mae hawl gan rai pobl archwilio'r ffurflenni cyfeiriadau cartref. Y bobl hynny yw:

- Unrhyw berson (arall) sy'n sefyll fel ymgeisydd enwebedig yn yr un etholaeth Senedd â chi
- Asiant etholiadol neu danysgrifiwr unrhyw berson (arall) sy'n sefyll fel ymgeisydd enwebedig yn yr un etholaeth Senedd â chi.
- Lle bo person arall yn sefyll fel ymgeisydd enwebedig yn yr un etholaeth Senedd â chi yn gweithredu fel eu hasiant eu hunain, neu unrhyw berson arall a enwebwyd ganddynt

1.64 Ni chaiff yr un person dynnu gwybodaeth o ffurflen cyfeiriad cartref na gwneud copi ohonynt.

Penodi eich asiant etholiadol ac asiantiaid eraill

1.65 Yr asiant etholiadol yw'r sawl sy'n gyfrifol am reoli'ch ymgyrch etholiadol yn briodol ac, yn arbennig, am ei rheolaeth ariannol. Rhaid i chi benodi asiant etholiadol. Os na wnewch hynny, chi fydd yn cyflawni'r rôl honno.

I gael rhagor o wybodaeth am wariant ymgeiswyr, gweler:
Rhan 3: Gwariant a rhoddion

1.66 Yn dilyn y penodiad, dim ond gan neu drwy'r asiant etholiadol y gellir talu treuliau etholiad.

1.67 Gallwch hefyd benodi asiantiaid eraill i arsylwi'r prosesau etholiadol canlynol, y mae gennych chi a'ch asiant etholiadol yr hawl i'w harsylwi hefyd:

- agor pleidleisiau drwy'r post
- y bleidlais
- dilysu a chyfrif pleidleisiau

Pwy all fod yn asiant etholiadol?

1.68 Nid oes angen unrhyw gymwysterau penodol i fod yn asiant etholiadol a gallwch fod yn asiant i chi'ch hun os dymunwch wneud hynny.

1.69 Fodd bynnag, ni chaiff y bobl ganlynol fod yn asiantiaid etholiadol:

- y Swyddog Canlyniadau Etholaethol, y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol neu aelod o'u staff (gan gynnwys unrhyw glercod a benodwyd yn arbennig ar gyfer yr etholiad)
- dirprwy neu glerc y Swyddog Canlyniadau Etholaethol, y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, neu aelod o'u staff
- swyddog awdurdod lleol y mae'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol neu'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn defnyddio ei wasanaethau
- partner neu glerc unrhyw un o'r uchod

1.70 Os ydych yn sefyll ar ran plaid, efallai y bydd ganddi reolau penodol hefyd ynghylch pwy y gallwch ei benodi'n asiant etholiadol.

Penodi asiant etholiadol

1.71 Yn sgil y cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth rôl asiant etholiadol, dylech ystyried eich penodiad yn ofalus a sicrhau bod yr unigolyn dan sylw yn deall ei rwymedigaethau. Gallwch fod yn asiant i chi'ch hun os dymunwch wneud hynny.

Mae hefyd yn ddefnyddiol darparu rhif ffôn cyswllt a chyfeiriad e-bost ar gyfer eich asiant etholiadol fel y gall y Swyddog Canlyniadau Etholaethol gysylltu ag ef yn hawdd.

1.72 Rhaid i chi, neu rywun ar eich rhan, ddatgan yn ysgrifenedig enw, a chyfeiriad swyddfa eich asiant etholiadol i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol erbyn 4pm ar y 19eg diwrnod gwaith cyn yr etholiad. Dylech chi (neu'r sawl sy'n gwneud y datganiad ar eich rhan) a'r asiant lofnodi'r datganiad er mwyn dangos ei fod yn derbyn y penodiad.

1.73 Gall y Swyddog Canlyniadau Etholaethol ddarparu ffurflen datganiad, neu gallech ddefnyddio ffurflen datganiad yr asiant etholiadol a gynhyrchwyd gan y Comisiwn. Os na

fyddwch yn penodi rhywun fel eich asiant erbyn y dyddiad cau, byddwch yn dod yn asiant i chi'ch hun yn awtomatig.

1.74 Rhaid i gyfeiriad swyddfa eich asiant fod:

- o fewn yr etholaeth Senedd rydych yn sefyll ynddi neu mewn etholaeth Senedd gyfagos
- mewn sir neu fwrdeistref sirol sy'n rhannol o fewn yr etholaeth Senedd rydych yn sefyll ynddi neu'n ffinio â'r etholaeth honno

1.75 Yn aml, cyfeiriad cartref yr asiant fydd cyfeiriad ei swyddfa, ond gallai hefyd fod yn gyfeiriad swyddfa leol y blaid neu swyddfa a sefydlwyd ar gyfer yr etholiad.

1.76 Rhaid i'r cyfeiriad swyddfa a gaiff ei ddatgan i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol fod yn gyfeiriad y gellir anfon unrhyw hysbysiadau cyfreithiol iddo, ac felly rhaid iddo fod yn gyfeiriad ffisegol – ni ellir defnyddio blychau Swyddfa'r Post nac unrhyw flychau post tebyg.

1.77 Os byddwch yn gweithredu fel eich asiant etholiadol eich hun, ac:

- yw'r cyfeiriad swyddfa rydych wedi ei ddarparu hefyd yn eich cyfeiriad cartref
- wedi gofyn na chaiff eich cyfeiriad cartref ei gyhoeddi,

ni chaiff y cyfeiriad ei gyhoeddi ar yr hysbysiad asiantiaid etholiadol. Yn hytrach, bydd yr etholaeth neu wlad rydych wedi ei darparu ar eich ffurflen cyfeiriad yn cael ei hargraffu ar yr hysbysiad asiantiaid etholiadol.

1.78 Os nad ydych yn penodi rhywun arall, neu yn penodi chi eich hunan yn asiant i chi, chi fydd eich asiant eich hunan yn ddiofyn, a'r cyfeiriad swyddfa fydd y cyfeiriad a roesoch ar y ffurflen cydsynio i enwebu

Diddymu penodiad asiant etholiadol

1.79 Gallwch ddiddymu penodiad eich asiant etholiadol unrhyw bryd, gan gynnwys ar ôl y diwrnod pleidleisio, a gellir

gwneud penodiad newydd drwy ddilyn y broses uchod. Os byddwch yn diddymu penodiad eich asiant etholiadol, heb benodi rhywun arall, tybir mai chi yw eich asiant etholiadol eich hun.

1.80 Os ydych yn gweithredu fel eich asiant etholiadol eich hun, gallwch ddiddymu eich penodiad eich hun a phenodi rhywun arall fel eich asiant.

1.81 Pan fydd asiant wedi derbyn ei benodiad, ni all ymddiswyddo a rhaid iddo gyflawni'r dyletswyddau gofynnol oni fyddwch yn diddymu ei benodiad.

Is-asiantiaid

1.82 Gall eich asiant etholiadol benodi is-asiantiaid i weithredu ar ei ran ledled yr etholaeth lle rydych yn sefyll, ar yr amod nad yw'r rhannau hynny o'r etholaeth yn gorgyffwrdd. Gall yr asiant benderfynu ar sut i rannu'r etholaeth.

1.83 Caiff is-asiant wneud unrhyw beth y caiff yr asiant etholiadol ei wneud yn yr ardal lle y'i penodwyd.

1.84 Dylai'r asiant etholiadol sicrhau bod unrhyw is-asiant yn ymwybodol o'r rheolau gwariant ac etholiadol, oherwydd caiff unrhyw beth a wneir gan is-asiant ei drin fel petai wedi'i wneud gan yr asiant etholiadol. I gael rhagor o wybodaeth am wariant etholiad, gweler Rhan 3: Gwariant a rhoddion.

1.85 Rhaid bod gan bob is-asiant swyddfa y gellir anfon unrhyw hysbysiadau cyfreithiol iddi, ac felly rhaid bod gan y swyddfa honno gyfeiriad ffisegol – ni ellir defnyddio blychau Swyddfa'r Post na blychau post tebyg. Rhaid i swyddfa'r is-asiant fod yn yr ardal y mae wedi'i benodi i weithredu ynddi.

1.86 Rhaid i'r asiant etholiadol hysbysu'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn ysgrifenedig am enw a chyfeiriad pob is-asiant a'r ardal y mae wedi'i benodi i weithredu ynddi erbyn y pumed diwrnod gwaith cyn yr etholiad. Bydd y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn darparu ffurflen i chi ei defnyddio. Neu, gallwch ddefnyddio'r ffurflen bwrpasol ym mhecyn enwebu'r Comisiwn.

1.87 Caiff yr asiant etholiadol ddiddymu penodiad is-asiant ar unrhyw adeg a phenodi rhywun arall yn ei le. Os penodir is-asiant arall, rhaid i'r asiant etholiadol ddatgan yn ysgrifenedig yr enw, cyfeiriad, cyfeiriad swyddfa ac ardal y penodiad i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol.

Penodi asiantiaid pleidleisiau post, pleidleisio a chyfrif

1.88 Gallwch hefyd benodi asiantiaid i fod yn bresennol wrth i'r pleidleisiau drwy'r post gael eu hagor, ac yn ystod y bleidlais a'r cyfrif.

1.89 Gellir penodi unrhyw un, ar wahân i'r rhai a nodir ym mharagraff **1.59**, i weithredu fel asiant pleidleisiau post, pleidleisio neu gyfrif. Gallwch chi a'ch asiant etholiadol hefyd weithredu fel un o'r asiantiaid hynny heb fod angen eich penodi'n swyddogol. Caiff is-asiantiaid hefyd fod yn bresennol yn ystod y bleidlais a'r cyfrif, ond dim ond yn lle'r asiant etholiadol.

1.90 Gallwch benodi unrhyw nifer o asiantiaid pleidleisio i fod yn bresennol ymhob gorsaf bleidleisio, ond dim ond un asiant pleidleisio ar gyfer pob ymgeisydd all fod yn bresennol mewn gorsaf bleidleisio ar unrhyw adeg. Gellir penodi asiant pleidleisio i fod yn bresennol mewn mwy nag un orsaf bleidleisio.

1.91 Bydd y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn nodi uchafswm nifer yr asiantiaid pleidleisiau post a chyfrif y gallwch eu penodi. Caiff pob ymgeisydd benodi'r un nifer. Yn y cyfrif, oni fydd amgylchiadau arbennig, ni fydd nifer yr asiantiaid cyfrif a ganiateir fesul ymgeisydd yn llai na'r nifer a geir drwy rannu nifer y cynorthwywyr cyfrif (h.y. y staff hynny a gyflogir i gyfrif) â nifer yr ymgeiswyr.

1.92 Rhaid i'r cais i benodi'r asiantiaid hyn gael ei wneud yn ysgrifenedig i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol. Rhaid iddo gynnwys enwau a chyfeiriadau'r bobl a benodir. Bydd y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn darparu ffurflenni ar gyfer hyn, neu gallwch ddod o hyd i ffurflenni penodi asiantiaid pleidleisiau post, pleidleisio a chyfrif ar wefan y Comisiwn.

1.93 Bydd y dyddiad cau ar gyfer penodi'r asiantiaid hyn yn dibynnu ar y broses y byddant yn bresennol ynddi. Rhaid i asiantiaid pleidleisio a chyfrif gael eu penodi heb fod yn hwyrach na'r pumed diwrnod gwaith cyn yr etholiad. Fodd bynnag, nid oes ond rhaid i'r ffurflenni penodi ar gyfer asiantiaid pleidleisiau post gael eu cyflwyno i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol erbyn yr amser a bennwyd ar gyfer y digwyddiad agor pleidleisiau post y maent am fod yn bresennol ynddo. Bydd y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn rhoi o leiaf 48 awr o rybudd i chi cyn i bob sesiwn agor pleidleisiau post ddechrau.

1.94 Os bydd asiant yn marw neu'n methu â gweithredu, cewch benodi asiant arall yn ei le drwy gyflwyno'r ffurflen penodiad berthnasol i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol. Rhaid i unrhyw benodiad newydd o dan yr amgylchiadau hyn gael ei wneud yn ddi-oed.

1.95 Rhoddir rhagor o wybodaeth am yr hyn y caiff asiantiaid ei wneud a'r hyn na chaiff asiantiaid ei wneud, a'r hyn y gallant ddisgwyl ei weld mewn sesiynau agor pleidleisiau post, gorsafoedd pleidleisio a'r cyfrif, yn Rhan 5: Eich hawl i fod yn bresennol mewn digwyddiadau etholiadol allweddol.

Marwolaeth ymgeisydd

1.96 Os bydd ymgeisydd yn marw yn ystod cyfnod yr etholiad, gweler paragraff **1.93** i gael rhagor o wybodaeth am sut y bydd hyn yn effeithio ar yr etholiad.

Gwybodaeth atodol

Enw(au) cyffredin

1.97 Os ydych yn defnyddio enw gwahanol i'ch enw gwirioneddol yn fynych, gallwch ofyn am gael defnyddio eich enw(au) cyffredin yn lle'ch enw gwirioneddol. Er enghraifft, efallai mai 'Andy' yw'r enw cryno a ddefnyddir ar eich cyfer, yn lle'ch enw llawn cyntaf sef 'Andrew'. Os felly, gallwch ysgrifennu 'Andy' yn y blwch enw cyntaf cyffredin ar y papur enwebu os byddai'n well gennych fod yr enw hwnnw'n ymddangos ar y papur pleidleisio.

1.98 Gallwch ofyn am gael defnyddio enw cyntaf a/neu gyfenw cyffredin.

1.99 Fodd bynnag, ni chewch ddefnyddio eich enw cyntaf fel enw cyffredin fel mai dim ond eich enw cyntaf a'ch cyfenw sy'n ymddangos ar bapur pleidleisio, a thrwy hynny ddileu eich enw canol. Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi'n glir bod enw cyffredin yn un sy'n wahanol i unrhyw enw cyntaf neu gyfenw arall. Mae hyn yn golygu na all enw cyntaf ar ei ffurf wreiddiol gael ei ddefnyddio fel enw cyffredin. Os dymunwch ddefnyddio enw cyntaf a/neu gyfenw cyffredin yna rhaid iddynt fod yn wahanol i'ch enw llawn fel y mae'n ymddangos ar y ffurflen enwebu. Er enghraifft, yn achos Andrew John Smith, ni allai ddefnyddio Andrew Smith fel ei enw cyffredin, er y gallai ddefnyddio Andy Smith (os mai Andy oedd ei enw cyffredin).

1.100 Cewch hefyd ddefnyddio blaenlythrennau fel rhan o'ch enw cyffredin os cânt eu defnyddio'n fynych mewn perthynas â chi.

1.101 Byddai'r enw(au) cyffredin wedyn ymddangos ar:

- y datganiad o bersonau a enwebwyd a'r hysbysiad pleidlais, ac
- y papurau pleidleisio

1.102 Rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol drosglwyddo'r enw cyffredin a roddir ar y ffurflen enwebu i'r datganiad o'r sawl a enwebwyd oni bai ei fod o'r farn bod yr enw cyffredin yn debygol o gamarwain neu ddrysu etholwyr, neu ei fod yn anweddus neu'n sarhaus. Os na chaniateir yr enw(au), bydd y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn ysgrifennu atoch gan nodi'r rheswm dros hynny. Yn yr achosion hynny, defnyddir eich enw gwirioneddol.

1.103 Os caiff y blwch ar gyfer enw cyntaf neu gyfenw cyffredin ar y ffurflen enwebu ei adael yn wag, yna bydd eich enw cyntaf neu gyfenw gwirioneddol, yn dibynnu ar ba flwch ar gyfer enwau cyffredin a adawyd yn wag, yn cael ei ddefnyddio.

1.104 Mae'n drosedd gwneud datganiad anwir ar eich ffurflen enwebu. Felly, os byddwch yn dewis rhoi enw cyffredin, rhaid i chi sicrhau ei fod yn enw cyntaf neu'n gyfenw cyffredin ar eich cyfer.

Marwolaeth ymgeisydd

Yr adeg y caiff y Swyddog Canlyniadau Etholaethol brawf o farwolaeth yr ymgeisydd yw'r ffactor perthnasol, nid union amser y farwolaeth.

1.105 Mae effaith marwolaeth ymgeisydd cyn i'r canlyniad gael ei ddatgan yn dibynnu ar b'un a oedd yr ymgeisydd dan sylw yn sefyll ar ran plaid wleidyddol gofrestredig ai peidio.

Marwolaeth ymgeisydd annibynnol

1.106 Os oes mwy na dau unigolyn yn sefyll wedi'u henwebu a bod ymgeisydd nad yw'n sefyll ar ran plaid wleidyddol yn marw, bydd yr etholiad yn parhau fel arfer. Os bydd yr ymgeisydd a fu farw yn cael y nifer fwyaf o bleidleisiau, ni chaiff ei ethol a chaiff yr etholiad ei ailgynnal. Ni fydd angen unrhyw enwebiadau newydd: bydd yr holl ymgeiswyr gwreiddiol wedi'u henwebu o hyd ar gyfer yr etholiad newydd a chanlyniad yr etholiad hwnnw fydd yn pennu p'un a gaiff yr ernesau eu cadw neu eu had-dalu. Ni chaniateir unrhyw enwebiadau newydd ar gyfer yr etholiad a gaiff ei ailgynnal, ond caiff ymgeiswyr dynnu'n ôl.

1.107 Os nad yr ymgeisydd annibynnol a fu farw a gafodd y nifer fwyaf o bleidleisiau yn y bleidlais wreiddiol, yr ymgeisydd a gafodd y nifer fwyaf a gaiff ei ethol, ac nid effeithir ar yr etholiad. Os daeth yr ymgeisydd a fu farw yn gydradd gyntaf gyda'r un nifer o bleidleisiau ag unrhyw ymgeisydd arall, caiff yr ymgeisydd arall ei ethol.

1.108 Os mai dim ond dau unigolyn sy'n sefyll wedi'u henwebu a bod ymgeisydd annibynnol yn marw, caiff yr etholiad ei thrin fel etholiad diwrthwynebiad a chaiff yr ymgeisydd arall ei ethol.

1.109 O dan yr holl amgylchiadau, ad-delir ernes yr ymgeisydd a fu farw.

Marwolaeth ymgeisydd plaid

1.110 Os bydd y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn cael prawf ac yn fodlon cyn i'r canlyniad gael ei ddatgan bod ymgeisydd sy'n sefyll ar ran plaid wleidyddol wedi marw, caiff yr etholiad ei atal ar unwaith. Os bydd y bleidlais wrthi'n mynd rhagddi neu'r pleidleisiau wrthi'n cael eu cyfrif, bydd y broses honno'n cael ei hatal. Cynhelir etholiad newydd.

1.111 Ni fydd angen unrhyw enwebiadau newydd: bydd yr holl ymgeiswyr gwreiddiol wedi'u henwebu o hyd ar gyfer yr etholiad newydd a chanlyniad yr etholiad hwnnw fydd yn pennu p'un a gaiff yr ernesau eu cadw neu eu had-dalu. Ni chaniateir unrhyw enwebiadau newydd ar gyfer yr etholiad newydd, ac eithrio'r ffaith y gellir enwebu ymgeisydd newydd i sefyll ar ran plaid (neu bleidiau) yr ymgeisydd a fu farw. Caiff unrhyw ymgeiswyr presennol dynnu'n ôl cyn y dyddiad cau ar gyfer tynnu'n ôl o'r etholiad newydd. Rhaid cyflwyno papurau enwebu'r ymgeisydd sy'n sefyll ar ran plaid (neu bleidiau) yr ymgeisydd a fu farw erbyn diwedd y cyfnod enwebu, yn unol â'r amserlen newydd.